Cyfleusterau Cymunedol

Cyd-destun

Mae cyfleusterau cymunedol yn gwneud cyfraniad sylweddol i les ac ysbryd cymunedol ardal.

Gall eich Cynllun Cynefin gynnwys gwybodaeth am sefyllfa bresennol y cyfleusterau yn eich cymuned, yn ogystal ag amlygu bylchau. Gall y dystiolaeth hon helpu i ddiogelu cyfleusterau sy'n bodoli, a gellir ei defnyddio i osod anghenion a dymuniadau lleol ar gyfer darparu cyfleusterau newydd, yn enwedig os oes bwlch amlwg mewn darpariaeth. Gellid hefyd nodi (er nid dosrannu) cyfleusterau newydd mewn Cynllun Cynefin.

Darperir cyfleusterau cymunedol gan ystod o sefydliadau (cyhoeddus, preifat a gwirfoddol). Maent yn darparu cyfleusterau ar gyfer anghenion iechyd, lles, cymdeithasol, addysgol, ysbrydol, hamdden a diwylliannol y gymeund ac yn chwarae rhan bwysig yn darparu cyfleoedd i bobl gyfarfod a rhyngweithio'n gymdeithasol. Gall cyfleusterau cymunedol gynnwys:

- Ysgolion a mannau dysgu eraill

- Cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol , yn cynnwys meddygfeydd i feddygon a deintyddion, canolfannau galw-i-mewn GIG a chanolfanau gofal lleol, ac ysbytai hyd yn oed.
- Cyfleusterau hamdden a chwaraeon, preifat yn ogystal â gwirfddol / cymunedol.
- Parciau cyhoeddus, gerddi, coetir, meysydd chwarae, rhandiroedd, mynwentydd ac ati
- Cyfleusterau chwarae.
- Cyfleusterau ieuenctid.
- Gwasnaethau gwybodaeth a llyfrgelloedd, yn cynnwys hysbysfyrddau ac ati
- Canolfanau cymunedol neu neuaddau cyfarfod.
- Cyfleusterau diwylliannol (sinema, theatr, canolfan gelfyddydau, amgueddfa ac ati).
- Mannau addoli.
- Tafarndai, caffis a bwytai.
- Siopau*.
- Swyddfeydd Post.
- Cyfleusterau i ddenu ymwelwyr (e.e. cwrs mini golf neu adeilad hanesyddol).

* I gymuned fach gall fod yn briodol i restru'r holl siopau lleol yn unigol. Ar gyfer tref mwy o faint mae'n well i amlinellu'r cymysgedd a'r cydbwysedd cyffredinol o siopau canol y dref ond hefyd i nodi unrhyw siopau mewn cymdogaethau tu allan i ganol y dref.

Er mwyn delio ag hyn oll, neu ran ohono, y cam cyntaf yw cynhyrchu sail tystiolaeth o'r hyn sydd yno nawr ac, i raddau, pa mor dda neu ddim y defnyddir y cyfleuster.

Cam nesaf y gwaith yw sefydlu pa dystiolaeth gan yr awdurdod lleol sydd ar gael ynghylch unrhyw fwlch mewn darpariaeth, er enghraifft diffyg meysydd chwarae. Y cam olaf yw cynhyrchu adroddiad o dystiolaeth i gydfynd â'r cynllun.

Sut?

Cam 1: Rhestru a Mapio

Y cam cyntaf yw cynhyrchu rhestr o gyfleusterau a'u rhoi ar fap (neu 2/3 map os oes llawer o gyfleusterau).

Nid oes ateb terfynol ynghylch beth fydd ar unrhyw restr. Mae rhestr weddol safonol ar y dudalen flaenorol. Dewiswch a chymysgwch o hon fel bo'n briodol ac ychwanegwch unrhyw gyfleusterau yn eich ardal na chynhwysir yn ein rhestr ni. Defnyddiwch neu addaswch y siart ffug yn Atodiad 1.

Ar gyfer cyfleusterau fel canolfannau cymunedol, neuaddau ac eglwysi, gall fod yn ddefnyddiol iawn i ddarganfod a nodi'r gwahnol grwpiau a chymdeithasau sy'n cyfarfod ynddynt.

Mae mapio yn y cynfod hwn yn syml iawn ac gellir eu llunio â llaw, yn seiliedig ar googlemap – dim ond yn y cam drafftio cynllun mae'n angenrheidiol i gael mapio go iawn.

Mae ffurflen ffug syml drosodd y gallwch ei defnyddio.

Cam 2: Asesu Bylchau

Bydd eich awdurdod lleol wedi cynhyrchu, ar gyfer ei Gynllun Datblygu Lleol, lawer o adroddiadau tystiolaeth a all ddelio â, er enghraifft, parciau a mannau agored, darpariaeth hamdden neu ardaloedd chwarae. Mae'r cynnwys yn amrywio fel mae maint y manylder. Dylai'ch awdurdod lleol allu dweud wrthych pa adroddiadau a ddylid eu hadolygu (ac yna dylid cyfeirio at y rhain yn y cynllun terfynol).

Gall y fath adroddiadau amlygu'n aml ble mae bylchau mewn darpariaeth, er enghraifft diffyg meysydd chwarae o'i gymharu â'r safon gyffredinol. Heb hyn, gall fod yn anodd i sefydlu bylchau ar lefel tref, pentref neu gymdogaeth fach. Os oes synnwyr cyffredinol bod bwlch mewn darpariaeth benodol, nodwch hyn hyd yn oed os nad oes safonau amlwg i'w berthynu iddynt.

Cam 3: Adroddiad Terfynol

Yn yr adroddiad terfynol (byr!) mae angen cael pedair elfen:

- Fersiwn derfynol rhestr y cyfleusterau.
- Map terfynol y cyfleusterau
- Unrhyw ganlyniadau o ddadansoddiad bylchau yn nhystiolaeth yr awdurdod lleol.

- Canlyniadau yn nhermau cynigion o'r hyn efallai sydd ei angen nawr,k un ai i gadw, efallai i wella, efallai i ychwanegu.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru yn gynllun grant cyfalaf a gellir ei defnyddio i wella cyfleusterau cymunedol sy'n ddefnyddiol i, ac a'u defnyddir yn aml gan, bobl yn y gymuned.
Mae grantiau ar gael ar ddwy lefel; grantiau bach dan **£25,000** a grantiau mwy hyd at **£250,000**. Noder – mae'r grantiau hyn ar gael i sefydliadau cymunedol a'r sector wirfoddol ond nid i Gynghorau Tref a Chymuned.

http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/community-facilities-programme/?lang=en